

EICH CANLLAW I AROS YN DDIOGEL

Mae hwn yn ganllaw i asbestos. Mae'n dweud wrthy ch beth sydd angen i chi ei wybod am asbestos - beth ydyw, lle y gallech ddod o hyd iddo yn eich cartref, sut mae'n effeithio ar iechyd a sut y gallwn ei wneud yn ddiogel.

Does dim angen poeni. Hyd yn oed os oes gennych asbestos yn eich cartref ac mae mewn cyflwr da, nid yw'n broblem fel arfer. Mae asbestos ond yn beryglus os yw'n cael ei ddifrodi neu os aflonyddir arno yn ystod gwaith ar eich cartref.

Beth yw asbestos?

Asbestos yw'r enw a roddir ar grŵp o fwynau sy'n digwydd yn naturiol mewn carreg. Mae tri phrif fath o asbestos yn cael eu defnyddio yn y DU gan gynnwys glas (Crosidolit), brown (Grwnerit) a gwyn (Crysotil), er y gall lliwiau fod yn gamarweiniol oherwydd bod ychwanegion paent, prosesu diwydiannol neu amser yn golygu bod asbestos yn gallu bod unrhyw liw.

Pam fod asbestos yn cael ei ddefnyddio mewn adeiladau?

Roedd asbestos yn cael ei ddefnyddio mewn adeiladau oherwydd ei fod yn ddeunydd cryf iawn ac yn gallu gwrthsefyll gwres a chemegau. Roedd yn cael ei ddefnyddio mewn deunyddiau adeiladu yn enwedig yn y

1960au a'r 1970au, ond fe all unrhyw adeilad a adeiladwyd cyn 2000 gynnwys asbestos.

Pam fod asbestos yn beryglus i bobl?

Mae asbestos ond yn beryglus pan gaiff ei aflonyddu neu ei ddifrodi. Dyna pryd mae'n rhyddhau ffibrau anweledig i'r awyr. Os ydym yn anadlu'r ffibrau hyn gallant fynd yn sownd ym meinwe y frest neu'r ysgyfaint. Gall hyn wedyn achosi clefydau fel:

- Asbestosis - creithio'r ysgyfaint
- Canser yr Ysgyfaint – canser yw hwn sydd i'w weld yn amlach ymysg ysmygwyr
- Mesothelioma – canser leinin yr ysgyfaint neu'r stumog yw hwn

A oes yna asbestos yn fy nghartref?

Mae'r llun isod yn dangos y manau lle gallai'r asbestos fod wedi cael ei ddefnyddio yn eich tŷ, y tu mewn a'r tu allan i'r eiddo.

Tu mewn

- a Tanciau dŵr sment asbestos
- b Deunydd lagio peipen
- c Deunydd inswleiddio llanw rhydd
- d Haenau addurniadol gwriadog
- e Bwrdd wedi ei Insweiddio gan Asbestos (AIB) mewn teils nenfwd
- f Panel Bath Sment Asbestos
- g Sedd toiled a seston
- h AIB tu ôl blwch ffiwsiau
- i Cwprdd crasu dillad AIB a/neu cotiadau chwistrell boeler AIB
- j AIB parwydydd
- k AIB panel ffenestr mewnol
- l AIB o gwmpas boeler
- m Teils Llawr ffinyl
- n AIB y tu ôl i'r tân

Tu allan

- o Gwteri a pheipiau landeri sment asbestos
- p AIB neu Sment Asbestos soffitiau
- q AIB panel ffenestr allanol
- r To sment asbestos
- s Paneli sment asbestos
- t Ffelt to



NID YW DEUNYDD INSWLEIDDIO LLOFFT NEU WALIAU CEUDOD SYDD WEDI'I WNEUD O FFIBR MWYNAU A WNAED GAN DDYN (MMMFM) YN CYNNWYS ASBESTOS.

Cyngor asbestos

Peidiwch â gwneud unrhyw waith DIY a allai darfu ar adeiladwaith yr adeilad. Peidiwch â thynnu parwydydd, neu osod artecs tywod (gweadog) ar waliau neu nenfydau. Peidiwch â drilio, llifio neu stripio unrhyw ardal a allai gynnwys asbestos. Cofiwch efallai fod teils llawr sy'n cynnwys asbestos wedi'u gosod o dan unrhyw orchudd llawr, a dylech adael llonydd iddynt.

- Peidiwch â chynhyrfu! Fel arfer bydd asbestos ond yn broblem os caiff ei aflonyddu neu ei ddifrodi
- Gadewch lonydd i unrhyw ardal neu gynnyrch sydd wedi'i ddifrodi ac a allai gynnwys asbestos
- Peidiwch â hel llwch, sgubo neu hwfro unrhyw faw neu falurion a allai gynnwys asbestos
- Peidiwch â thynnu lakin, cotiadau chwistrell neu fwrdd inswleiddio asbestos
- Os oes amheuaeth, ffoniwch ni ac mi wnawn ni gael arbenigwr i daro golwg ar bethau ac yna byddwn ni'n gwneud rhywbeth am y sefyllfa. Mewn unrhyw achos, byddwn yn rhoi gwybod i chi felly nid oes angen i chi boeni

Gadewch y peth i ni

Os credwch fod gennych asbestos yn eich cartref byddwn yn edrych ar ein cofnodion ac os oes angen, yn trefnu arolwg o'ch eiddo. Efallai y byddwn yn cymryd sampl o unrhyw ran yr ydym yn amau ei bod yn cynnwys asbestos, ac yn anfon y sampl i labordy i'w ddadansoddi. Yn dibynnu ar y canlyniadau, efallai y byddwn wedyn yn ei orchuddio gyda phaent amddiffynnol, byrddau arbennig neu drefnu iddo gael ei dynnu.

Sut ydym yn gwneud cartrefi yn ddiogel?

Os nad yw asbestos wedi cael ei ddifrodi ac os yw'n dal i wneud ei waith drwy gryfhau a gwarchod rhag tân, y peth mwyaf diogel yw ei adael yn ei le. Dyma beth mae'r gyfraith a pholisi'r llywodraeth yn dweud wrthym yw'r arfer gorau.

Lle mae asbestos yn berygl, byddwn yn ei wneud yn ddiogel drwy ei gau i mewn neu ei dynnu.

Rydym yn cynnal arolygon ar hap o'n cartrefi i gael gwybod os ydynt yn cynnwys asbestos. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd ein syrfewyr asbestos hyfforddedig yn cynnal yr arolygon hyn.

Os byddwn yn dod o hyd i asbestos yn eich cartref, byddwn yn cymryd un o'r camau hyn yn dibynnu ar lefel y risg:

- Byddwn yn ei symud oddi yno
- Byddwn yn ei gau i fewn, ei gapio neu ei selio
- Byddwn yn rheoli'r wybodaeth fel bod unrhyw gontractwyr fydd yn gweithio ar eich eiddo yn gwybod ble mae'r asbestos fel nad ydyn nhw'n aflonyddu neu ei symud ar ddamwain

Os oes angen i ni dynnu'r asbestos, byddwn yn rhoi gwybod i chi lle mae a beth i'w wneud yn y cyfamser. Ond cofiwch, nid yw'n risg oni bai ei fod yn cael ei symud neu ei ddifrodi.